OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 787 (Cy.68)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007

Wedi'u gwneud - -	*9 Mawrth 2007*
	am 6am ar 2 Ebrill
Yn dod i rym - -	*2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 2(5), 3, 5(1) a (2), 6, 8(3), 10 a 79(3) o Ddeddf Iechyd 2006(**1**) a pharagraff 4 o Atodlen 1 iddi a chan adran 26 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007 a deuant i rym am 6am ar 2 Ebrill 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn (ac eithrio pan fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall) —

mae "annedd breifat" ("*private dwelling*") yn cynnwys llety preswyl hunangynhwysol ar gyfer defnydd dros dro neu wyliau ac unrhyw garej, tŷ allan neu strwythr arall at ddefnydd personau sy'n byw yn yr annedd yn unig;

mae "cartref gofal" ("*care home*") i'w ddehongli yn unol ag adran 3 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**3**);

ystyr "cerbyd preifat" ("*private vehicle*") yw cerbyd a ddefnyddir yn llwyr neu'n bennaf at ddibenion preifat y person sy'n berchen arno neu sydd â hawl i'w ddefnyddio nad yw'n deillio o daliad neu ymgymeriad i dalu am gael defnyddio'r cerbyd neu ei yrrwr ar gyfer taith benodol.

ystyr "dynodedig" ("*designated*") yw wedi'i ddynodi yn ysgrifenedig gan y person sydd â gofal y fangre;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd 2006;

ystyr "hosbis i oedolion" ("*adult hospice*") yw sefydliad, a'i ddiben yn llwyr neu ei brif ddiben yw darparu gofal lliniarol i bersonau heb fod o dan 18 oed sy'n preswylio yno ac sy'n dioddef o glefyd sy'n gwaethygu ac sydd yn ei gyfnodau olaf;

(**1**) 2006 p.28.
(**2**) 1993 p.38.
(**3**) 2000 p.14.

ystyr "uned iechyd meddwl" ("*mental health unit*") yw sefydliad neu ran o sefydliad a'i brif ddiben neu ei phrif ddiben yw darparu triniaeth neu nyrsio (neu'r ddau) i bersonau sy'n dioddef o anhwylder meddwl fel y'i diffinnir yn adran 1(2) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**4**).

Ystyr mangre "gaeedig" a "sylweddol gaeedig"

2.—(1) At ddibenion adran 2 o'r Ddeddf, mae mangre yn gaeedig os oes ganddi nenfwd neu do, ac os yw hi heblaw am ddrysau, ffenestri a choridorau, yn gwbl gaeedig naill ai'n barhaol neu dros dro.

(2) At ddibenion adran 2 o'r Ddeddf, mae mangre yn sylweddol gaeedig os oes ganddi nenfwd neu do ac os yw cyfanswm arwynebedd unrhyw agoriadau yn y waliau yn llai na hanner arwynebedd y waliau, gan gynnwys strwythurau eraill sy'n cyflawni diben waliau.

(3) Wrth benderfynu arwynebedd yr agoriadau at ddibenion paragraff (2), ni ddylid cymryd unrhyw gyfrif o agoriadau y mae drysau, ffenestri neu ffitiadau eraill ynddynt y gellir eu hagor neu eu cau.

(4) Yn y rheoliad hwn mae "to" yn cynnwys unrhyw strwythur gosodedig neu symudol neu ddyfais osodedig neu symudol.

Esemptiadau i fangreoedd di-fwg

3.—(1) Nid yw annedd breifat yn ddi-fwg ac eithrio unrhyw ran ohoni—

(a) a rennir gyda mangre arall (gan gynnwys unrhyw annedd breifat arall) neu

(b) a ddefnyddir yn unig fel lle gwaith heblaw gwaith sy'n cael ei eithrio gan baragraffau (2) neu (3).

(2) Mae gwaith a gaiff ei wneud mewn rhan o annedd a ddefnyddir yn unig fel lle gwaith yn cael ei eithrio o baragraff (1)(b) os nad oes neb (heblaw person sy'n byw yn yr annedd) yn gweithio yn y rhan honno neu'n cael ei wahodd i ddod i'r rhan honno mewn cysylltiad â'r gwaith.

(3) Eithrir o baragraff (1)(b) bob gwaith a gaiff ei wneud yn unig—

(i) er mwyn darparu gofal personol neu ofal iechyd i berson sy'n byw yn yr annedd;

(ii) er mwyn cynorthwyo gyda gwaith domestig yr aelwyd yn yr annedd;

(iii) er mwyn cynnal strwythur neu adeiladwaith yr annedd;

(iv) er mwyn gosod, arolygu, cynnal neu symud unrhyw wasanaeth a ddarperir i'r annedd er budd y personau sy'n byw ynddi.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (6) nid yw'r disgrifiadau canlynol o fangreoedd yn rhai di-fwg —

(a) ystafelloedd dynodedig i'w defnyddio gan y rhai sy'n 18 oed neu drosodd —

(i) mewn cartref gofal;

(ii) mewn hosbis i oedolion;

(iii) mewn uned iechyd meddwl sy'n darparu llety preswyl ar gyfer cleifion;

(b) ystafelloedd dynodedig mewn cyfleuster ymchwil neu gyfleuster cynnal profion;

(c) ystafelloedd gwely dynodedig mewn gwesty, gwesty bach, tafarn, hostel neu glwb aelodau.

(5) At ddibenion paragraff (4) ystyr "ystafell ddynodedig" neu "ystafell wely ddynodedig" yn ôl y digwydd, yw ystafell —

(a) a gafodd ei dynodi gan y person sydd â gofal y sefydliad o dan sylw yn ystafell lle y caniateir ysmygu;

(**4**) 1983 p.20.

(b) y mae ganddi nenfwd ac sydd, heblaw am ddrysau a ffenestri, yn hollol gaeedig ar bob ochr gan waliau solet o'r llawr i'r nenfwd;

(c) nad oes ganddi system awyru sy'n awyru i ran arall o'r fangre (ac eithrio unrhyw ystafelloedd dynodedig neu ystafelloedd gwely dynodedig eraill, yn ôl y digwydd);

(ch) nad oes ganddi unrhyw ddrws sy'n agor i fangre ddi-fwg ac nad yw'n cau'n fecanyddol yn union ar ôl ei ddefnyddio; a

(d) sydd wedi'i marcio'n glir yn ystafell lle y caniateir ysmygu.

(6) Nid yw ystafell ddynodedig mewn cyfleuster ymchwil neu gyfleuster gynnal profion yn ystafell ddi-fwg pan fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw ymchwil neu ar gyfer cynnal profion sy'n ymwneud â—

(i) mwg a ollyngir o dybaco a chynhyrchion eraill a ddefnyddir ar gyfer ysmygu;

(ii) datblygu cynhyrchion ar gyfer ysmygu gyda llai o berygl o ran tân neu â chynnal profion tân ar ddeunyddiau sy'n ymwneud â chynhyrchion ar gyfer ysmygu;

(iii) datblygu cynhyrchion ysmygu neu fferyllol a allai olygu gweithgynhyrchu cynhyrchion llai peryglus ar gyfer ysmygu; neu

(iv) rhaglenni rhoi'r gorau i ysmygu.

Cerbydau di-fwg

4.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau canlynol y rheoliad hwn, rhaid i gerbyd fod yn ddi-fwg os caiff ei ddefnyddio —

(a) i gludo aelodau o'r cyhoedd neu garfan o'r cyhoedd (p'un ai am dâl neu dan log ai peidio); neu

(b) at ddibenion gwaith gan fwy nag un person (hyd yn oed os yw'r personau sy'n ei ddefnyddio at y cyfryw ddibenion yn gwneud hynny ar adegau gwahanol, neu ar adegau ysbeidiol yn unig).

(2) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i gerbydau a rhannau o gerbydau sy'n gaeedig.

(3) Mae cerbyd neu ran o gerbyd yn gaeedig at ddibenion paragraff (2) os oes ganddo ddrysau neu ffenestri y gellir eu hagor ond nid yw'n gaeedig oni bai bod to drosto yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

(4) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i bob cerbyd heblaw —

(a) awyrennau; neu

(b) llongau neu hofranlongau y gellid gwneud rheoliadau ar eu cyfer o dan adran 85 o Ddeddf Llongau Masnachol 1995 (p.21) (diogelwch ac iechyd ar longau), gan gynnwys yr adran honno fel y'i cymhwysir gan unrhyw Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 1(1)(h) o Ddeddf Hofranlongau 1968 (p.59) neu i bersonau ar unrhyw long neu hofrenlong o'r fath; neu

(c) cerbydau preifat

(5) Yn y rheoliad hwn nid yw "to" yn cynnwys unrhyw do a gaiff ei roi o'r neilltu yn gyfan gwbl fel nad yw dros unrhyw ran o gerbydran y caiff personau deithio ynddi.

Arwyddion dim ysmygu: mangreoedd di-fwg

5.—(1) At ddibenion adran 6 o'r Ddeddf, rhaid i unrhyw berson sy'n meddiannu mangre ddi-fwg neu'n ymwneud â'i rheoli sicrhau bod arwyddion dim ysmygu sy'n bodloni'r gofynion a bennir ym mharagraff (2) yn cael eu harddangos yn y fangre honno yn unol â'r gofynion sydd ym mharagraff (3).

(2) Rhaid i arwydd dim ysmygu —

(a) fod yn fflat, yn betryal o ran ei siâp ac yn 160 o filimetrau wrth 230 o filimetrau o leiaf o ran ei faint;

(b) cynnwys darlun graffeg o sigarét yn llosgi o fewn cylch coch sy'n 85 o filimedrau mewn diamedr o leiaf a chyda bar coch ar draws y cylch sy'n croesi symbol y sigarét;

(c) cynnwys y geiriau canlynol — "Mae ysmygu yn y fangre hon yn erbyn y gyfraith / It is against the law to smoke in these premises".

(3) Rhaid arddangos arwydd dim ysmygu sy'n cydymffurfio â gofynion paragraff (2) mewn lle amlwg wrth neu gerllaw pob mynedfa i fangre ddi-fwg.

Arwyddion dim ysmygu: cerbydau di-fwg

6.—(1) Rhaid i'r person perthnasol o ran cerbyd sy'n ddi-fwg yn rhinwedd rheoliad 4 sicrhau bod arwyddion dim ysmygu sy'n bodloni'r gofynion a bennir ym mharagraff (2) yn cael eu harddangos ar y cerbyd yn unol â'r gofynion sydd ym mharagraff (3).

(2) Rhaid i arwydd dim ysmygu gynnwys darlun graffeg o sigarét yn llosgi o fewn cylch coch sy'n 75 o filimedrau mewn diamedr o leiaf a chyda bar coch ar draws y cylch sy'n croesi symbol y sigarét.

(3) Rhaid arddangos arwydd dim ysmygu sy'n cydymffurfio â gofynion paragraff (2) mewn lle amlwg ym mhob cerbydran o'r cerbyd, y mae to drosti neu'n rhannol drosti, gan gynnwys cerbydran y gyrrwr.

(4) Ym mharagraff (3) nid yw "to" yn cynnwys to a gaiff ei roi o'r neilltu yn gyfan gwbl fel nad yw dros unrhyw ran o gerbydran y caiff personau deithio ynddi.

(5) At ddibenion y rheoliad hwn a rheoliad 7, ystyr "person perthnasol" o ran cerbyd di-fwg yw —

(a) y gweithredydd,

(b) y gyrrwr, ac

(c) unrhyw berson mewn cerbyd sy'n gyfrifol am drefn neu am ddiogelwch arno.

Dyletswydd i atal ysmygu mewn cerbydau di-fwg

7. Mae'n ddyletswydd ar y person perthnasol o ran cerbyd sy'n ddi-fwg yn rhinwedd rheoliad 4 beri bod person sy'n ysmygu yn y cerbyd yn stopio ysmygu.

Gorfodi: dynodi awdurdodau gorfodi

8.—(1) Dynodir cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru yn awdurdodau gorfodi at ddibenion Pennod 1 o Ran 1 o'r Ddeddf.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae gan bob awdurdod gorfodi swyddogaethau gorfodi o ran y mangreoedd a'r cerbydau sydd o fewn ei ardal.

(3) Os bydd mwy nag un awdurdod gorfodi yn gwneud ymchwiliadau ynglŷn â'r un person o dan y pwerau a roddir gan Bennod 1 o Ran 1 o'r Ddeddf, caiff yr awdurdodau o dan sylw, drwy gytundeb, drosglwyddo'r swyddogaethau gorfodi i un ohonynt neu i unrhyw awdurdod gorfodi arall.

Gorfodi; hysbysiad o gosb

9.—(1) Mae'r ffurfiau hysbysiad o gosb a osodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn yn cael eu pennu o ran y tramgwyddau a ddisgrifir ynddynt.

(2) Os bydd newid yn swm cosb benodedig neu swm disgownt neu yn lefel y raddfa safonol, rhaid amrywio'r ffurf berthnasol benodedig er mwyn adlewyrchu'r newid hwnnw.

(3) Caiff awdurdodau gorfodi gynnwys gwybodaeth ar ffurfiau hysbysiad o gosb o ran y dull talu neu i hwyluso prosesu'r ffurflenni'n ariannol ac yn weinyddol a chaiff gynnwys ar y ffurflenni arfbeisiau, logos neu ddyfeisiadau eraill i gynrychioli'r awdurdod.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

Rhodri Morgan
9 Mawrth 2007 Prif Wenidog Cymru

(**5**) 1998 p.38.